



**Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales**

Cofnodion/Nodiadau Gweithredu Cyfarfod Bwrdd 8 Hydref 2021 ar Teams

Yn bresennol: Sue Davies (SD) (Cadeirydd)
Tegwen Ellis (TE) (Prif Weithredwr)
Mike James (MJ)
Martin Price (MP)
Davina Payne (DP)
Paul Marshall (PM)
Kate Lewis (KL)
Michaela Renkes (LIC)
Claire Williams (CW) – ymunodd ar gyfer eitem 3 ar yr Agenda
Jason Garcia (JGa) (Archwilio Cymru) – ymunodd ar gyfer
eitem 5 ar yr Agenda
Gaynor Ace (GA) (Ysgrifenyddiaeth)

1. Gair o Groeso, cadarnhad o'r cofnodion a champau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol

Agorodd SD y cyfarfod gan estyn croeso i bawb. Cafwyd ymddiheuriadau gan John Graystone (JG) a Rosemary Jones (RJ). Nid oedd unrhyw wrthdaro buddiannau i'w adrodd.

Llongyfarchodd SD y tîm ar ennill y wobr Aur i Fuddsoddwyr mewn Lles a chadarnhaodd fod holl aelodau'r Bwrdd bellach wedi derbyn hyfforddiant mewn seiberddiogelwch.

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod gwir a chywir. Cyfeiriodd SD at y Log Gweithredu o gyfarfod blaenorol y Bwrdd a nododd fod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu bellach wedi'u cwblhau neu y byddent yn cael eu trafod yn ddiweddarach yn yr agenda. Bydd cynnydd yn cael ei wirio ar gam gweithredu RJ mewn perthynas â Chymdeithas yr Iaith Gymraeg.

2. Adroddiad y Pwyllgor Cyllid/Adnoddau Dynol

Diolchodd SD i gadeiryddion y ddau bwyllgor am eu holl waith caled.

Darparodd MP adroddiad ar gyfarfod diwethaf y Pwyllgor Cyllid/Adnoddau Dynol a gynhaliwyd ar 14 Medi 2021.

Rhoddodd TE ddiweddariad staff ac Adnoddau Dynol yn y cyfarfod hwn gan ddweud bod y patrwm gwaith hybrid presennol - 90% ar-lein a 10% wyneb yn wyneb bellach

– yn parhau. Roedd KL wedi llwyddo i leihau costau storio offer swyddfa i lefel fwy hylaw.

Mae Cylch Gorchwyl y pwyllgor wedi'i adolygu a bu angen mân newidiadau i'w gysoni â'r pwyllgor arall. Yn unol â'r Cylch Gorchwyl, mae'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd wedi'u hadolygu. Bydd MP yn ymgymryd â rôl y Cadeirydd yn dilyn cyfarfod y Bwrdd a byddai JG yn ymgymryd â rôl yr Is-gadeirydd.

Rhodddwyd ystyriaeth i gyfyngiadau'r system bresennol o reoli cyllidebau bob chwarter yn hytrach na phob blwyddyn. Esboniodd MR y rhesymeg wrth wraidd hyn ond cytunodd i gyfarfod â KL i drafod ymhellach.

Holodd MJ a fyddai'r system bresennol o weithio ar-lein yn bennaf yn parhau. Cadarnhaodd TE y byddai'r system hybrid 90:10 o weithio yn cael ei threialu tan y gwanwyn nesaf heb unrhyw fwiad i gynyddu gweithio wyneb yn wyneb ar hyn o bryd. Cadarnhaodd MR fod y dull hwn yn cyd-fynd ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i barhau â gweithio gartref yn bennaf.

Diolchodd SD i MP am roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y pwyllgorau.

3. Diweddariad

Gwahoddwyd CW i fynychu'r cyfarfod hwn o'r Bwrdd yn dilyn ei hymddiswyddiad fel aelod o'r Bwrdd oherwydd gwrthdaro buddiannau. Llongyfarchodd SD CW ar ennill lle fel Cydymaith yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (Carfan 4).

Diolchodd CW i bawb ar y Bwrdd am roi cystal croeso iddi hi gan ddatgan faint roedd hi wedi elwa ar ei chyfnod fel aelod o'r Bwrdd. Mynegodd CW ddiolch hefyd i RJ a fu'n fentor iddi yn ystod y cyfnod hwn.

Roedd CW wrth ei bodd ei bod wedi llwyddo i sicrhau ei rôl newydd fel Cydymaith a oedd eisoes yn heriol ac yn gyffrous iawn.

Diolchodd SD i CW am ei holl fewnbwn gwerthfawr fel aelod o'r Bwrdd a dymunodd yn dda iddi yn ei rôl newydd. Ategodd MJ a PM hyn gan ganmol y mewnwelediadau gwerthfawr yr oedd CW wedi'u darparu diolch i'w rôl yn Bennaeth ysgol.

Gobeithiai DP y gallai CW roi blas o'i phrofiad yng Ngharfan 4 cyn i'r Bwrdd gael ei adnewyddu. Cadarnhaodd TE fod hyn wedi'i nodi'n briodol a diolchodd i CW hefyd.

4. Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Cyflwynodd PM yr adroddiad o gyfarfod y pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a gynhaliwyd ar 24 Medi 2021.

Mae dau adroddiad archwilio mewnol wedi'u hystyried - un ar gyfathrebu a marchnata ac un arall ar seiberddiogelwch. Roedd y ddau wedi cael adolygiadau hynod gadarnhaol gyda sicrwydd sylweddol gan archwilyr mewnol heb unrhyw argymhellion.

Daeth Charlotte Thomas (CT) i gyfarfod y pwyllgor a rhoddodd gyflwyniad trawiadol iawn ar ei gwaith marchnata a chyfathrebu. Argymhellodd PM y dylid ei ddsbarthu i holl aelodau'r Bwrdd.

Trafodwyd y Gofrestr Risg a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r rhain ar hyn o bryd ac roedd esboniad llawn am hyn wedi'i gynnwys yng nghofnodion y pwyllgor. Roedd TE wedi esbonio'r angen i gamu'n ôl i sicrhau bod y rhain yn gwbl gyfredol yng nghyswllt y sefyllfa bresennol. Disgwylir y bydd ailfeddwl yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor.

Cododd PM fater yn ymwneud â'r Cylch Gorchwyl mewn perthynas â rôl TE ar y pwyllgor. Cytunwyd y dylid safoni hyn ar draws y ddau bwyllgor. Cyflwynwyd hyn i'r Bwrdd i'w benderfynu. Esboniodd MR fod TE yn eistedd ar y Bwrdd fel aelod anweithredol heb unrhyw hawliau pleidleisio. Felly, byddai'n ymddangos yn rhesymegol adlewyrchu hyn yn y ddau bwyllgor hefyd. Bydd SD yn gweithio gyda chadeiryddion y ddau bwyllgor i gytuno ar eiriad i adlewyrchu hyn ym mhob Cylch Gorchwyl.

Holodd MP am y gyfradd ail-ymweld eithaf isel ar gyfer ymwelwyr â'r wefan fel y nodwyd ym Mharagraff 7 o gofnodion y pwyllgor. Cadarnhaodd TE fod y gyfradd hon wedi cynyddu'n fawr ers lansio'r wefan newydd.

5. Cyflwyno adroddiad ISA 260 gan Archwilio Cymru

Estynnodd SD groeso i JGa i'r cyfarfod. Cyfeiriodd JGa at y wybodaeth archwilio a ddsbarthwyd i aelodau'r Bwrdd a mynegodd ddiolch i KL am yr holl gymorth yr oedd wedi'i roi i'r tîm archwilio.

Adroddodd JGa fod gan y dudalen Cynnwys yr un geiriad ag mewn blynyddoedd blaenorol a chadarnhaodd y raddfa gwallau ar gyfer perthnasedd a chydabyddiaeth uwch swyddogion. Derbyniwyd y set derfynol o gyfrifon ddoe felly ychydig iawn o bethau oedd yn weddill erbyn hyn.

Datgelodd Arddangosyn 1 a oedd yn manylu ar effaith Covid na fu unrhyw newidiadau i'r amserlen a bod yr holl derfynau amser wedi'u bodloni erbyn y dyddiadau priodol. Roedd gweithio gartref wedi arwain at rai newidiadau y cytunwyd arnynt megis derbyn llofnodion electronig a gwahanol ffyrdd o gael tystiolaeth.

Cadarnhaodd JGa nad oedd unrhyw gamddatganiadau yn weddill heb eu cywiro. Yr unig ystyriaeth oedd y ffordd yr ymdriniwyd â'r balans ar gyfer rhagdaliadau. Mae'r broblem hon bellach wedi'i datrys ac mae'r addasiadau perthnasol wedi'u gwneud.

Gofynnodd JGa i'r set o gyfrifon wedi'u llofnodi gael eu cyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol wedyn yn cymeradwyo'r farn Archwilio yn Atodiad 2 erbyn diwedd mis nesaf. Dywedodd JGa wrth y Bwrdd mai hwn fydd ei gyfarfod olaf gan ei fod yn symud ymlaen i rôl newydd. Diolchodd i bawb am eu cefnogaeth yn ystod ei gyfnod gydag Archwilio Cymru.

Diolchodd SD i JGa am adroddiad cynhwysfawr iawn ac roedd yn falch iawn o'r gymeradwyaeth gadarnhaol. Llongyfarchodd SD JGa ar ei rôl newydd a dymunodd yn dda iddo.

6. Adroddiad y Prif Weithredwr yn erbyn y Cynllun Corfforaethol

Dechreuodd TE drwy ddiolch i KL am ei holl waith gyda'r archwilio eleni a mynegodd ddiolch hefyd i Kirsty Payne am y flwyddyn flaenorol.

Defnyddiwyd y Fframwaith Canlyniadau a Thystiolaeth i adolygu'r cynllun corfforaethol dros gyfnod yr haf. Mae tair ffrwd waith ychwanegol bellach wedi'u hychwanegu mewn perthynas â datblygu arweinyddiaeth (1.4), datblygu'r gweithlu (2.4) a rhanddeiliaid (3.4).

Atgoffodd TE aelodau'r Bwrdd am ddigwyddiadau ar-lein fel Leadership Unlocked – nid oedd angen archebu ar-lein dim ond rhoi gwybod i CT.

Roedd fforwm wedi'i gynnal ar sicrhau ansawdd a oedd yn rhoi cyfleoedd ar gyfer sgysiau gyda darparwyr. Daeth yr alwad am gymeradwyaethau i ben ar 1 Hydref gyda dim ond dau gais. Mae TE yn parhau i fod yn awyddus i ystyried y ffordd orau o nodi'r mathau o ddarpariaeth ac mae'n bwriadu gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ystyried sut i gynnal archwiliad.

Nododd MR fod llawer o wybodaeth ar gael gan gynnwys llawer o gyfleoedd ar-lein a chyfleoedd o Loegr hefyd. Er bod tri archwiliad eisoes wedi'u cynnal, mae'n anodd cael darlun pendant.

Holodd MJ a oedd unrhyw gynlluniau i ehangu'r rhaglen ac ystyried carfannau gwahanol o gwsmeriaid. Byddai hyn wedyn yn bodloni uchelgeisiau'r dyfodol yn y cynllun corfforaethol. Myfyriodd TE ar yr angen i feddwl am ffyrdd o gyflawni hyn a gwnaeth sylwadau ar faterion yn ymwneud â darpariaeth ranbarthol a gwneud cyfleoedd yn deg ac yn hygyrch i bawb.

Mae Paragraff 1.2 Arloesi yn cyfeirio at gefnogaeth barhaus i brosiectau ar hyd y llwybr. Y gobaith yw y bydd rhai modelau'n cael eu cymeradwyo cyn bo hir, er y byddai angen mwy o dystiolaeth ar eraill. Mae angen rhannu dysgu o'r prosiectau yn ehangach rhwng clystyrau a rhwydweithiau ar lefel leol yn ogystal â lefel genedlaethol. Pwysleisiodd TE fod y llwybr arloesi yn ymwneud â mentro a bod yn greadigol ac yn arloesol wrth gynllunio ac ymarfer

Roedd MR wedi rhannu'r rhestr o brosiectau arloesi o fewn Llywodraeth Cymru yn ddiweddar ac ers hynny mae wedi derbyn llawer o ymholiadau. Pwysleisiodd MR bwysigrwydd lledaenu'r gair yma.

Mynegodd TE ei chefnogaeth i'r holl brosiectau hyn sy'n ceisio cael arweinwyr i feddwl yn greadigol ac yn arloesol. Ystyriodd TE hefyd y problemau pan mae aelodau eraill o staff yn aml yn cael eu rhoi yng ngofal arwain meysydd cwricwlwm. Gan fod rhai penaethiaid wedi symud i ffwrdd o'r ddarpariaeth, mae'n bwysig sicrhau bod arweinwyr yn deall y neges am y cwricwlwm.

Mae Paragraff 1.3 Arweinyddiaeth system yn cyfeirio at adroddiad ARAD. Roedd hyn braidd yn siomedig, oherwydd er ei fod yn sôn am rai agweddau cadarnhaol, roedd naws yr adroddiad yn teimlo'n llai cadarnhaol. Cytunodd SD nad oedd yn ymddangos bod yr adroddiad hwn yn adlewyrchu'r angerdd y tu ôl i lawer o'r gwaith sydd wedi bod yn digwydd. Pwysleisiodd TE yr angen i ystyried yr holl ganfyddiadau yn gyffredinol wrth nodi gwelliannau sydd angen eu gwneud.

Gwnaeth MR sylwadau ar yr holl adroddiadau a ddeilliodd dros y 18 mis diwethaf ar wahanol agweddau ar ddysgu proffesiynol. Roedd rhai themâu cyffredin iawn yn dod i'r amlwg ynghylch rolau arwain a fydd yn ddefnyddiol iawn yn awr wrth frifio'r Gweinidog.

Mae paragraff 2.1 yn manylu ar y sylfaen dystiolaeth ar gyfer adnoddau. Mae gwaith ar arwain dysgu proffesiynol wedi datblygu dros gyfnod yr haf er bod rhywfaint o sensitifrwydd ar hyn o bryd ynghylch amseru. Mae CT wedi ysgrifennu strategaeth farchnata a chyfryngau fanwl i gefnogi'r adnodd Arwain Dysgu Proffesiynol. Roedd TE yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am yr arian ychwanegol i alluogi gwneud ffilmiau. Mae'r Gweinidog hefyd wedi cytuno i wneud fideo ac mae'n ymddangos yn gadarnhaol iawn o ran cefnogi gwaith wrth symud ymlaen.

Derbyniwyd drafft cyntaf y papur ar Arweinyddiaeth Dosturiol. Bydd hwn yn ategu Strategaeth Cymru Gyfan ar les arweinwyr. Mae TE yn croesawu barn y gweinidog pan fydd yn derbyn y papurau ddiwedd mis Hydref.

Bydd y papur ar arweinyddiaeth ganol yn cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer datblygu sgysiau ynghylch beth mae arweinyddiaeth ganol yn ei olygu mewn gwirionedd. Bydd hyn yn baratoad defnyddiol ar gyfer y gynhadledd arfaethedig ar y pwnc hwn yn y Flwyddyn Newydd.

Lansiwyd Comisiwn 2 ym mis Gorffennaf ac mae wedi'i rannu â'r gweinidog. Mae Cymdeithion Carfan 2 bellach yn hunangyfeiriedig ac yn gweithredu heb ddylanwad uniongyrchol yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol.

Mae paragraff 3.1 yn cyfeirio at lywodraethiant y bwrdd. Diolchodd TE i bawb am eu presenoldeb a'u mewnbwn yng nghyfarfodydd y Bwrdd a chyfarfodydd pwyllgor. Mae'r holl waith craffu a wneir yn ystod y cyfarfodydd hyn yn symud y sefydliad yn ei flaen ac yn rhoi sicrwydd sylweddol mewn meysydd fel seiberddiogelwch. Mae hyn hefyd wedi arwain at adroddiadau archwilio allanol cadarnhaol heb unrhyw argymhellion.

Tynnodd TE sylw at yr angen i gasglu gwybodaeth gan y sector ieuenctid am arweinyddiaeth gan fod bylchau o hyd i'w nodi yma.

Mae'r sefydliad bellach wedi symud o'i swyddfa ffisegol ac mae'n gweithredu'n effeithiol iawn fel sefydliad digidol. Bu rhywfaint o absenoldeb salwch ac un achos o Covid ymhlith y staff. Mae cymdeithion yn dweud bod y sefyllfa mewn ysgolion yn dod yn fwyfwy heriol gyda'r cynnydd presennol yn niferoedd Covid.

Y ddogfen a gafodd ei lawrlwytho fwyaf ym mis Gorffennaf oedd adroddiad y Comisiwn 2 gyda'r fersiwn Gymraeg yn dynn ar sodlau'r fersiwn Saesneg. Ym mis Awst, yr arolwg ieuenctid a'r papur ar werth yr wythnos waith anghymesur oedd

fwyaf poblogaidd. Ym mis Medi, adroddiad Cymraeg y Comisiwn oedd ar y brig, yna'r un Saesneg, ac yna'r papur arweinyddiaeth system.

Adroddodd MR fod y papur ar yr wythnos waith anghymesur wedi'i rannu yn Llywodraeth Cymru a oedd wedi bod yn edrych ar newidiadau posibl i'r diwrnod ysgol

Gwnaeth DP sylwadau ar y lleihad amlwg yn nifer yr ymweliadau ag adran addysgol y wefan drwy fis Awst er bod ystadegau cyfryngau cymdeithasol wedi aros yn uchel. Cadarnhaodd TE fod ystadegau wedi dychwelyd i'r lefelau arferol gyda disgyblion a staff yn dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi.

Diolchodd SD i TE am ei hadroddiad cynhwysfawr ac am holl waith caled TE a'i thîm drwy gydol y flwyddyn. Cymeradwyodd PM hyn gan ddweud bod cymaint o allbwn a chyflawniad gan grŵp mor fach o bobl wedi creu argraff fawr arno.

7. Ail-Iunio'r Bwrdd

Soniodd MR am benderfyniad y Gweinidog y llynedd i ailbenodi pawb i'r Bwrdd. Ym mis Awst eleni, cytunwyd i adnewyddu'r Bwrdd gan hyd at dri aelod. Byddai rhaglen dreigl o adnewyddu'r Bwrdd yn dilyn wedyn i ddod ag aelodau newydd sydd â'r sgiliau angenrheidiol i mewn i helpu'r sefydliad i symud ymlaen.

Bwriedir hysbysebu'n eang am aelodau newydd y Bwrdd o fis Tachwedd ymlaen gan ddefnyddio amrywiaeth o lwyfannau fel Twitter, y wefan a sesiynau galw heibio hefyd. Mae panel eisoes wedi'i ddewis ar gyfer cyfweiliadau a gynhelir ym mis Chwefror.

Holodd DP pa sgiliau y byddai'r Academi yn chwilio amdanynt yn yr aelodau newydd. Byddai SD yn ystyried ymhellach ond byddai'n chwilio am ddealltwriaeth eang o addysg ond hefyd ddealltwriaeth o waith a chyfrifoldebau Bwrdd. Gallai hyn hefyd fod yn gyfle da i gynyddu amrywiaeth y Bwrdd.

Cadarnhaodd MR y byddai cydnabyddiaeth ariannol y Bwrdd yn aros ar yr un lefel gan nad oedd unrhyw allu i wneud newidiadau ar hyn o bryd. Nododd DP y gallai hyn atal pobl iau rhag gwneud cais am y swyddi hyn.

8. Adolygiad o'r Cylch Gorchwyl

Roedd JG wedi cwestiynu un hepgoriad posibl yn y Cylch Gorchwyl (TOR) yn ymwneud â'r ffaith bod y Bwrdd yn gyflogwr i'r staff. Bydd MR yn gwirio'r Erthyglau Cymdeithasu i gadarnhau'r sefyllfa yma.

Cadarnhaodd SD fod pob un ohonynt yn hapus i dderbyn y Cylch Gorchwyl presennol.

9. Dyddiad y cyfarfod nesaf, eitemau'r agenda yn y dyfodol a chau'r cyfarfod

Nid oedd unrhyw fater arall i'w ystyried. Diolchodd SD i holl aelodau'r Bwrdd am eu cyfraniadau i'r cyfarfod hwn a hefyd am eu holl waith caled dros y flwyddyn heriol hon. Diolchodd SD hefyd i CT ac roedd yn llawn edmygedd ohoni am yr holl waith y mae wedi'i wneud. Awgrymodd SD y dylid gwahodd CT i'r Bwrdd i roi ei chyflwyniad.

Gofynnodd KL am farn y Bwrdd ar wahodd Cydymaith i'r cyfarfod nesaf. Barnwyd bod hyn yn ddefnyddiol, yn enwedig pe gallent ddod ag ongl wahanol i ganolbwyntio arni.

Awgrymodd MR hefyd y dylid gwahodd Owain Lloyd i gyfarfod yn y flwyddyn newydd. Bydd SD yn gwneud hyn nawr gan fod ei galendr yn llenwi'n gyflym.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd ar 26 Tachwedd. Daeth y cyfarfod hwn i ben am 12.00pm.

Log Gweithredu

Rhif.		Perchennog	Erbyn Pryd	Statws
176	Cysylltu â Chadeirydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg	RJ	Tachwedd 2021	
179	Trafod cyfyngiadau chwarterol ar y gyllideb	KL ac MR	Tachwedd 2021	
180	Gwahodd CW i roi cipolwg ar brofiad Carfan 4	KL	Ionawr 2022	
181	Dosbarthu cyflwyniad CT gyda phapurau'r Bwrdd	KL	Tachwedd 2021	
182	Cytuno ar eiriad ar gyfer rôl TE mewn pwyllgorau	SD/Cadeiryddion Pwyllgorau	Tachwedd 2021	
183	Gwirio Erthyglau Cymdeithasu mewn perthynas â'r Bwrdd yn gyflogwr staff	MR	Tachwedd 2021	
184	Gwahodd CT a Chydymaith i gyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol	KL	Ionawr 2022	
185	Gwahodd Owain Lloyd i gyfarfod y Bwrdd	SD	Tachwedd 2021	